# DINAS A SIR ABERTAWE

## MINUTES OF THE Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE ON DYDD IAU, 16 MEHEFIN 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D W W Thomas (Aelod Llywyddol) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| Anderson | J C Bayliss | M C Child |
| R A Clay | U C Clay | A C S Colburn |
| D W Cole | A M Cook | S E Crouch |
| N J Davies | A M Day | P Downing |
| C R Doyle | V M Evans | C R Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | F M Gordon |
| J A Hale | J E C Harris | C A Holley |
| B Hopkins | D H Hopkins | L James |
| Y V Jardine | A J Jones | S M Jones |
| J W Jones | E T Kirchner | R D Lewis |
| M Lewis | A S Lewis | P Lloyd |
| K E Marsh | P M Matthews | P N May |
| H M Morris | J Newbury | G Owens |
| D Phillips | C L Philpott | J A Raynor |
| T H Rees | C Richards | R C Stewart |
| D G Sullivan | C M R W D Thomas | M Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | G D Walker | L V Walton |
| T M White | | |

21. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P M Black, J E Burtonshaw, J P Curtice, R Francis-Davies, T J Hennegan, P R Hood-Williams, M H Jones, E J King, D J Lewis, C E Lloyd, I M Richard, P B Smith, R V Smith, R J Stanton, G J Tanner, C Thomas a L G Thomas.

22. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi atgoffa cynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a

rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd y Cynghorydd J C Bayliss Fudd Personol a Rhagfarnol yng Nghofnod 29 "Cynllun Datblygu Lleol – Drafft Adnau" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei thrafod;

2) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor Fudd Personol yng Nghofnod 29 "Cynllun Datblygu Lleol – Drafft Adnau

**Swyddogion**

3) Datganodd Huw Evans, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Fudd Personol a Rhagfarnol yng Nghofnod 29 "Cynllun Datblygu Lleol – Drafft Adnau" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei thrafod.

## 23. COFNODION.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod blynyddol y cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mai 2016;

2) Cyfarfod seremonïol y cyngor a gynhaliwyd ar 20 Mai 2016.

## 24. YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 25. CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.

**1) Cydymdeimladau**

**a) Ymosodiad Dryll yng nghlwb nos Pulse, Orlando, Fflorida**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol yn llawn cydymdeimlad at yr ymosodiad dryll diweddar yng nghlwb nos Pulse, Orlando, Fflorida lle lladdwyd 49 o bobl ac anafwyd 53. Dywedodd fod Baner yr Enfys yn chwifio ar ei hanner yn Swyddfeydd y Cyngor fel arwydd o barch ac undod ar gyfer y gymuned Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT), ac fel cofeb ac arwydd o barch i'r rhai a gollodd eu bywydau yn nhrasiedi Orlando yr wythnos ddiwethaf.

Mae gostwng y faner yn symbol o'n hundod â'r gymuned LGBT, yn enwedig yn ystod y cyfnod trist hwn, a bydd hefyd yn symboleiddio'n hymrwymiad parhaus i ddod â rhagfarn, casineb a gwarthnod i ben.

Safodd pawb a oedd yn bresennol ar eu traed fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

## 2) Llongyfarchiadau

### a) Grŵp Diogelwch Galwedigaethol Abertawe a Gorllewin Cymru

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol wedi cyrraedd y rhestr fer i ennill gwobrau ym meysydd Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Blaengar, yn ogystal â'r darian gyffredinol ar gyfer holl ddarpariaeth diogelwch a lles Grŵp Diogelwch Galwedigaethol Abertawe a Gorllewin Cymru.

Cydnabyddwyd y gwasanaeth, a derbyniodd wobrau am Berfformiad Diogelwch Rhagorol, ac am y tro cyntaf enillodd y darian Sefydliad Mawr gan guro Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Ceredigion, 3Ms a Dŵr Cymru a oedd hefyd ar y rhestr fer. Roedd hyn yn ogystal â'r gydnabyddiaeth ddiweddar o ennill Gwobr Aur Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Hefyd, enwebwyd David Price Deer o Ddigwyddiadau Arbennig fel gweithiwr y flwyddyn, a ddaeth yn ail oherwydd y gydnabyddiaeth o'i waith rhagorol a'i ymroddiad i wella diogelwch digwyddiadau i staff a miloedd o ymwelwyr sy'n mynychu digwyddiadau a gynhelir gan y Tîm yn flynyddol.

Roedd Craig Gimblett, Katja Davies a Tracy Williams yn bresennol i dderbyn y dyfarniad.

### b) Dawns Anrhydeddau Haf yr Arglwydd Faer

Roedd yr Aelod Llywyddol yn falch o gyhoeddi y byddai Dawns Anrhydeddau Haf yr Arglwydd Faer yn cael ei chynnal yn Neuadd Brangwyn nos Wener, 29 Gorffennaf 2016. Bydd y Ddawns yn cefnogi Cronfa Elusen yr Arglwydd Faer gan godi arian ar gyfer Canolfan Ganser Maggie, Cronfa Paul Popham ac elusen The Princes Gate.

Bwriad y Ddawns Anrhydeddau yw cydnabod y bobl sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol yn Abertawe drwy helpu i wneud Abertawe'n lle mor arbennig. Caiff pobl o bob cefndir eu hanrhydeddu yn y digwyddiad

mawreddog hwn, a bydd hefyd yn cydnabod y rheini sy'n codi proffil Abertawe ar draws y byd.

Bydd yr anrhydeddau agoriadol hyn yn arddangos amrywiaeth eang o bobl eithriadol ym myd busnes, chwaraeon, y celfyddydau, elusen ac adloniant. Mae'r tocynnau'n costio £45 yr un.

**c) Ymddiriedolaeth Penllergaer – Gwobr y Frenhines ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol 2016**

Roedd yn bleser gan yr Aelod Llywyddol gyhoeddi fod Ymddiriedolaeth Penllergaer wedi derbyn Gwobr y Frenhines ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol 2016 mewn cydnabyddiaeth o'i gwaith o atgyweirio a chynnal a chadw hen-safle Ystâd Dillwyn Llewelyn, Penllergaer.

**ch) Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2016**

Roedd yr Aelod Llywyddol yn falch o longyfarch Dinasyddion Abertawe a dderbyniodd ddyfarniadau yn ystod Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**a) Swyddog yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE)**

i) Margaret Hilary Dawson, MBE. Prif Weithredwr ac Ysgrifenyddes Gyffredinol, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA Cymru). Ar gyfer gwasanaethau i addysg yng Nghymru (Abertawe, Gorllewin Morgannwg).

**b) Aelod o'r Ymerodraeth Brydeinig (MBE)**

i) Sidney Frederick Hugh Kidwell. Hyrwyddwr dros Bobl Hŷn yn Abertawe. Am wasanaethau i'r Gymuned yn Abertawe. (Abertawe);

ii) Dr Susan Mary Mitchell. Pennaeth Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Yng Nghymru Ioan Fedyddiwr, Aberdâr. Am wasanaethau i Addysg yng Nghymru. (Abertawe);

iii) Helen Murray. Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Tŷ Olwen, Ysbyty Treforys, Abertawe. Am wasanaethau gwirfoddol i Ofal Lliniarol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. (Abertawe).

**c) Medal Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) Ruth Drusilla Janette Lewis. Swyddog â Gofal, Adran Llwchwr, Ambiwlans Sant Ioan. Am wasanaeth gwirfoddol i Gymorth Cyntaf. (Abertawe, Gorllewin Morgannwg);

ii) David James Edmond MacKen. Am wasanaethau i Eglwys San Pedr a'r gymuned yn Abertawe. (Abertawe);

iii) Andrea Dawn Pridmore. Rheolwr Gwasanaethau Digidol, DVLA. Am wasanaethau i Weinyddu Cyhoeddus a Cherddoriaeth Gymunedol drwy Fand Gorymdaith Silver Rythmaires Abertawe. (Abertawe, Gorllewin Morgannwg).

**3) Cywiriadau/Newidiadau i wŷs y cyngor.**

i) **Eitem 10 "Lwfansau a Threuliau'r Cynghorwyr 2015-2016"**
"Nodiadau" tudalen 51, ar waelod y dudalen. Hepgor y frawddeg mewn perthynas â'r Cynghorydd R C Stewart a gêm Y Gweilch yn erbyn Toulouse. Ni fynychodd y Cyng. Stewart, a gwrthododd y gwahoddiad.

ii) **Eitem 11 "Aelodaeth Pwyllgorau"**

**a) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau**
Tynnu'r Cynghorydd H M Morris oddi ar y panel.
Ychwanegu'r Cynghorydd M B Lewis.

**b) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ataliaeth a Diwygio Gofal Cymdeithasol**
Tynnu'r Cynghorydd C Anderson oddi ar y panel.
Ychwanegu'r Cynghorydd H M Morris.

26. **<u>CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.</u>**

**1) Cydymdeimladau, Jo Cox, AS Llafur Batley a Spen**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor yn llawn cydymdeimlad at farwolaeth Jo Cox, AS Llafur dros Batley a Spen yn gynharach y diwrnod hwnnw. Cafodd Jo Cox ei gadael yn gwaedu ar y llawr ar ôl i rywun ymosod arni yn Birstall, Gorllewin Swydd Efrog.

Safodd pawb a oedd yn bresennol ar eu traed fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**2) Morlyn Llanw**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at gyfarfod diweddar yr oedd ef wedi ei gael gyda Chadeirydd Adolygiad Annibynnol ar Forlynnoedd Llanw, y Gwir Anrhydeddus Charles Hendry.

Dywedodd fod yr adolygiad yn asesu a allai'r morlynnoedd llanw chwarae rôl gwerth am arian fel rhan o gymysgedd ynni'r DU. Pwysleisiodd bwysigrwydd prosiect y morlyn llanw o'i gymharu â manteision amgylcheddol amlwg (lleihau allyriadau a thrydan carbon isel dibynadwy), i'r effeithiau cadarnhaol ar yr economi leol a chynlluniau adfywio a thu hwnt i hyn o ran cynhwysiad cymdeithasol a manteision iechyd.

## 27. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol y rhai a oedd am ofyn cwestiynau mewn perthynas ag Eitem 9 "Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLl - Ymgynghoriad Cyhoeddus Adnau" y byddai cwestiynau ond yn cael eu hateb os oeddynt yn ymwneud â'r broses ymgynghori.

Doedd y cyfarfod ddim yn gyfle i ail ystyried y penderfyniad i gynnwys y safleoedd tai ac ardaloedd datblygu arfaethedig y cytunwyd arnynt fis Medi'r llynedd.

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet. Rhestrir y cwestiynau hynny nad oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig isod:

1) ofynnodd Lis Davies wrth Arweinydd y Cyngor gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 30 "Lwfansau a Threuliau Cynghorwyr 2015-2016".

   *"Lwfans TGCh. Gan ddilyn etholiad 2012 derbyniodd pob Cynghorydd £1,008 i brynu cyfarpar TGCh a £800 yn ychwanegol dros weddill cyfnod y swydd, os oedd angen. Mae hwn gwerth dros £130,000.*

   *A fydd y polisi hwn yn dal i gael ei weithredu ar ôl etholiad mis Mai 2017?"*

   Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

2) Gofynnodd Lis Davies i Arweinydd y Cyngor gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 32 "Cwestiynau Cynghorwyr".

   *"Tudalen 58. Cwestiwn 7. Ers mis Ebrill 2016 mae 128 o eiddo gwag yng nghanol y ddinas, gan gynnwys 33 mangre manwerthu neu fwytai yn ardaloedd manwerthu pennaf ac eilaidd y ddinas (heb gynnwys Ffordd y Brenin).*

   *Sawl eiddo manwerthu gwag a gafwyd yn ystod 2011-2012 a'r cyfnodau dilyniannol rhwng 2012 a 2016?"*

   Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 28. **CYFLWYNIAD CYHOEDDUS -**

Ni dderbyniwyd unrhyw Gyflwyniadau Cyhoeddus.

## 29. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - DRAFFT ADNAU.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r ddogfennaeth ategol.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau sy'n cynnwys y datganiad ysgrifenedig a'r Map Cynigion er mwyn ymgynghori'n gyhoeddus arno;

2) Llunio Cytundeb Cyflawni CDLl diwygiedig er mwyn ymgynghori'n gyhoeddus arno gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r amserlen ar gyfer cyflawni camau'r CDLl yn y dyfodol sy'n arwain at fabwysiadu'r cynllun;

3) Cytuno ar ganfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Arfarniad Cynaladwyedd.;

4) Ehangu'r cyfnod ymgynghori tan 5.00pm ar 12 Awst 2016.

## 30. LWFANSAU A THREULIAU'R CYNGHORWYR 2015-2016

Cyflwynwyd adroddiad gwybodaeth gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cyflwyno swm y lwfansau a threuliau a dalwyd i bob Cynghorydd ac Aelod Cyfetholedig yn ystod 2015-2016 yn ôl Cynllun Lwfansau Cynghorwyr.

## 31. AELODAETH PWYLLGORAU.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth cyrff y cyngor.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi nad oedd Arweinydd y Cyngor wedi gwneud unrhyw newidiadau i gyrff allanol yr awdurdod.

**PENDERFYNWYD** y dylid diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

1) **Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau**
Tynnu'r Cynghorydd H M Morris oddi ar y panel.
Ychwanegu'r Cynghorydd M B Lewis.

2) **Cyd-bwyllgor Cydnerthu**
Ychwanegu'r Cynghorwyr D W Cole, T J Hennegan, M H Jones, C Richards a D G Sullivan.

3) **Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddiwygio Gofal Cymdeithasol ac Ataliaeth**
Tynnu'r Cynghorydd C Anderson oddi ar y panel.
Ychwanegu'r Cynghorydd H M Morris.

4) **Panel Llywodraethwyr yr ALl**
Tynnu'r Cynghorydd L J Tyler-Lloyd oddi ar y panel.
Ychwanegu'r Cynghorydd A C S Colburn.

5) **Panel Ymddiriedolwyr**
Tynnu'r Cynghorydd M Lewis oddi ar y panel.
Ychwanegu'r Cynghorydd K E Marsh

32. **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.</u>**

1) **'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd pump (5) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

a) Cwestiwn 2. Gofynnodd y Cynghorydd J W Jones:

*"Pryd bydd y broses blaenoriaethu symud arwyddion dangos cyflymder sydd wedi eu pweru â solar i gyflenwad trydan yn cychwyn, ac a fydd Cynghorwyr yn rhan o'r broses?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

2) **'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd tri (3) o 'Gwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' yn Rhan B.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm

**CADEIRYDD**